Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 310 – 24 Ebrill 2008
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2008.

1. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad. Nododd ei fod wedi mynychu cynhadledd WITBC yn Seland Newydd yn ddiweddar.

2. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr grynodeb o adroddiad diweddaraf Ofcom ar PSBR gan esbonio cyd-destun S4C o fewn argymhellion Ofcom.

3. Cymeradwyo Datganiad Ariannol 2007

Nododd Rheon Tomos fod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg wedi cyfarfod yn gynharach i drafod cyfrifon drafft 2007 ac yn ogystal wedi cyfarfod gyda'r Archwilwyr Mewnol a'r Archwilwyr Allanol. Diolchodd i Kathryn Morris a'i staff am baratoi'r cyfrifon.

4. Cyfarfod gyda David Scott, Digital UK

Yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod cafwyd cyfarfod gyda David Scott, Prif Weithredwr DigitalUK i drafod gwaith DigitalUK mewn perthynas â'r newid i deledu digidol yng Nghymru

5. Materion Eraill

- Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:
- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad ar fonitro Chwarter 1 o Gynllun Corfforaethol 2008
- Adroddiad ar fonitro Chwarter 1 Cynllun Gweithredu S4C ar wahaniaethau ar sail anabledd ar gyfer 2008